Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Hydref 2020

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi, 2020.

Cytunodd Estyn gyda Llywodraeth Cymru i gynnal arolwg thematig cyflwr y genedl mewn ymateb i ddau argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar addysgu Hanes, Diwylliant a Threftadaeth Cymru yn Nhachwedd 2019. Mae'r argymhellion yn amlinellu y dylai Estyn adolygu addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, a'r dystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, UG a Safon Uwch ar addysgu cynnwys Cymreig. Yn ogystal, dylai'r adolygiad asesu sut mae amrywiaeth yn cael ei addysgu mewn ysgolion, ac ystyried a yw'r hanes a addysgir mewn ysgolion yn gynrychioliadol o holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol.

Yng ngolau digwyddiadau diweddar, gan gynnwys gwaith y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, mae Estyn wedi cytuno i gais gan Lywodraeth Cymru i'r adolygiad ystyried hanes, hunaniaeth a diwylliant Cymru, a phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn ehangach. Mae cynllun y prosiect wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

Bydd yr adroddiad cyflwr y genedl yn adlewyrchu safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth bresennol addysgu hanes a diwylliant Cymru a BAME mewn ysgolion. Bydd yn cymryd tystiolaeth o sampl o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig a darparwyr chweched dosbarth ledled Cymru. Hefyd, bydd yr adolygiad yn nodi enghreifftiau o arfer orau i ddangos ble mae hanes a diwylliant Cymru a BAME yn cael eu haddysgu'n effeithlon. Gallai awgrymu meysydd allweddol ar gyfer gweithredu.

Bydd Estyn yn casglu tystiolaeth drwy ymweliadau ag ysgolion, galwadau ffôn neu gyfarfodydd rhithwir gydag arweinwyr ysgol, sgyrsiau ffôn gyda gweithwyr proffesiynol allweddol, ymgysylltu â'r gweithgor Cymunedau, cyfraniadau a chynefin pobl BAME yn y cwricwlwm newydd yn cael ei

arwain gan yr Athro Charlotte Williams, gwybodaeth o arolygiadau diweddar ac adroddiadau thematic perthnasol eraill.

Cafodd methodoleg ac amseriad yr adolygiad thematig ei adolygu yng ngolau'r pandemig COVID-19 gan i ymweliadau ag ysgolion gael eu hoedi ym mis Mawrth 2020. Mae'n anodd cadarnhau'n bendant pa bryd fydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau a'i gyhoeddi, ond mae'n debygol mai yn haf 2021 fydd hynny, ar y cynharaf. Bellach, bydd tystiolaeth yn cynnwys galwadau ffôn a chyfarfodydd rhithwir gydag ysgolion, darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon a gweithwyr proffesiynol allweddol yn ystod ail hanner tymor yr Hydref. Bydd hyn yn ein helpu i ffurfio barnau cychwynnol ar ddarpariaeth ac arweinyddiaeth addysgu ar gyfer hanes a diwylliant Cymru a BAME. Bwriadwn adeiladu ar y canfyddiadau cychwynnol hyn drwy ymweld ag ysgolion a darparwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol lle bo modd yn nhymor y Gwanwyn, gobeithio. Bydd hyn yn ein galluogi i driongli gwybodaeth ac i lunio barnau ar safonau ac agweddau disgyblion at ddysgu am hanes a diwylliant Cymru a BAME.

Yn gywir

**Meilyr Rowlands**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru